# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Dyfodol Diwydiant Awyrofod y Gogledd-ddwyrain
### The Future of the Aerospace Industry in North-east Wales

**Q13 Carl Sargeant:** Will the First Minister make a statement on the future of the aerospace industry in north-east Wales? OAQ0118(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** North-east Wales's aerospace sector is presently enjoying an extremely positive period. I was delighted that Airbus's new A380 aircraft was successfully unveiled in Toulouse last month. With GE Wales to service its GP7200 engines, this shows the world just what twenty-first century Wales is capable of. I congratulate both companies and their plants and workforce on their truly fantastic achievements.

**C13 Carl Sargeant:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol diwydiant awyrofod y Gogledd-ddwyrain? OAQ0118(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Ar hyn o bryd, mae sector awyrofod y Gogledd-ddwyrain yn mwynhau cyfnod hynod bositif. Yr oeddwn wrth fy modd bod awyren A380 newydd Airbus wedi'i lansio yn llwyddiannus yn Toulouse mis diwethaf. GE Wales fydd yn gwasanaethu peiriannau GP7200 yr awyren, sy'n dangos i'r byd yr hyn y gellir ei gyflawni yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain. Yr wyf yn llongyfarch y ddau gwmni, eu ffatrïoedd a'u gweithluoedd ar eu cyflawniadau gwych.

### Datganiad Rhag-gyllidebol y Canghellor
### The Chancellor's Pre-budget Statement

**Q14 Mark Isherwood:** Will the First Minister make a statement on the consequences of the Chancellor's pre-budget statement for Wales? OAQ0130(FM)

**The First Minister:** The pre-budget report provided the Assembly with an additional £38.5 million over the next three years. Some £7.4 million has been allocated to local government in 2005-06, and the remainder will be allocated during the annual budget planning round in line with our strategic priorities.

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar oblygiadau datganiad rhag-gyllidebol y Canghellor i Gymru? OAQ0130(FM)

**Y Prif Weinidog:** Rhoddodd yr adroddiad rhag-gyllidebol £38.5 miliwn ychwanegol i'r Cynulliad dros y tair blynedd nesaf. Neilltuwyd oddeutu £7.4 miliwn i lywodraeth leol yn 2005-06, a neilltuir y gweddill yn ystod cylch cynllunio blynyddol y gyllideb yn unol â'n blaenoriaethau strategol.

### Hyrwyddo Cymru Dramor
### Promoting Wales Abroad

**Q15 Nick Bourne:** Will the First Minister update us on what he is doing to promote Wales abroad? OAQ0135(FM)

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'n ei wneud i hyrwyddo Cymru dramor? OAQ0135(FM)

**The First Minister:** I continue to exploit every available opportunity to promote Wales' profile abroad. This includes hosting and meeting foreign VIPs, participation in international networks and in EU matters, accompanying overseas trade missions, attendance at overseas promotional events and other ministerial visits abroad.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn dal i fanteisio ar bob cyfle posibl i hybu proffil Cymru dramor. Mae hyn yn cynnwys croesawu a chyfarfod â phwysigion o dramor, bod yn rhan o rwydweithiau rhyngwladol a materion yr Undeb Ewropeaidd, mynd ar deithiau masnach dramor, mynychu gweithgareddau hyrwyddo dramor ac ymweliadau gweinidogol dramor.